



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun unedig

Bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn disodli datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) a chynlluniau addysg unigol (CAUau) ar gyfer dysgwyr a gefnogir ar hyn o bryd drwy'r cynlluniau Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Lle bo angen, yr ysgol a fydd yn penderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac, os felly, yn sefydlu CDU.

Gall ysgolion atgyfeirio penderfyniadau o'r fath i'r awdurdod lleol:

- os yw penderfynu ar raddau a natur yr ADY sydd gan y person ifanc, neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen arno, y tu hwnt i allu'r ysgol
- pe na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei hunan sicrhau'r DDdY sy'n ofynnol.

Y Gymraeg

Os bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg ar blentyn neu berson ifanc, rhaid cofnodi hynny yn y CDU a rhaid cymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau'r ddarpariaeth yn Gymraeg.

Hawliau clir a chyson i apelio

Bydd gan bob plentyn, ei rieni/gofalwyr a phobl ifanc hyd at 25 yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol mewn perthynas ag ADY neu CDU. Ni fydd cyrff llywodraethu ysgolion yn ddarostyngedig i apelïadau.

Ystod oedran 0 hyd at 25

Trefniadau pontio gwell rhwng darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar, ysgolion ac addysg ôl-16.



Cod ADY gorfodol

Bydd y Cod ADY yn pennu gofynion gorfodol ar gyfer corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru mewn perthynas â:

- phenderfyniadau am ADY
- paratoi CDUau, eu cynnwys a'u ffurf, a sut y dylent gael eu hadolygu a'u diwygio
- rhoi'r gorau i gynnal CDUau.

Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

Rhaid i ysgolion ddynodi cydlynedd anghenion dysgu ychwanegol (cydlynedd ADY) sy'n disodli rôl bresennol y cydlynedd anghenion addysgol arbennig (cydlynedd AAA) anstatudol mewn ysgolion.

Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau'n gynharach

Dylai ysgolion sicrhau bod plant, eu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc yn cael cyfle i godi pryderon a chael atebion cynnar i'w cwestiynau, er mwyn osgoi gweld anghytundebau yn codi.

Mwy o gydweithredu

Lle bo angen, bydd CDUau yn cynnwys DDdY y cytunwyd arni gan wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill, yn ogystal ag addysg. Bydd CDUau yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflenwi'r elfennau unigol.